# Strategaeth Iaith Gymraeg: Cynllun Gweithredu (30/10/2018)

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Nod strategol 1:** cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

**Amcanion:**

1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf.
1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol.
1.3 Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Nod strategol 2:** cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau.

**Amcanion:**

2.1 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol.
2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus.
2.3 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd

**Nod strategol 3:** sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

**Amcanion:**

3.1 Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni.
3.2 Sicrhau economi ffyniannus sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg y gweithlu.
3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol.

# 1. Cynhyrchu ac atgynhyrchu iaith

**Nod strategol 1:** cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

| | Amcanion | Camau Gweithredu | Partneriaid | Dangosydd |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf. | Darparu gwybodaeth a chyngor uniongyrchol i rieni ynghylch gwerth y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael. | • Gwasanaeth Addysg Ceredigion<br>• Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ceredigion<br>• Dechrau'n Deg<br>• Cered | • Yr Adnoddau arweiniol a chefnogol sydd ar gael wedi'u rhannu'n eang e.e. Byw a Bod, Dechrau'r Daith at Ddwy Iaith.<br>• Cynnwys Adran benodol ar wefan ysgolion y cyngor ac yn y Llawlyfr Derbyn i Ysgolion, o ran gwneud y dewis gorau o ran Addysg Cyfrwng Cymraeg |
| | | Hyrwyddo a Chefnogi prosiect Cymraeg i Blant yng Ngheredigion, er mwyn annog trosglwyddiad iaith o fewn yr aelwyd. | • Llywodraeth Cymru<br>• Cymraeg i Blant (Mudiad Meithrin) | • Nifer o grwpiau cefnogol a gynhelir gan Cymraeg i Blant |
| | | Cefnogi Mudiad Meithrin i gynnal a chynyddu eu cylchoedd Ti a Fi. | • Mudiad Meithrin | • Nifer y cylchoedd Ti a Fi yn y sir<br>• Nifer y mynychwyr |
| | | Cefnogi Mudiad Meithrin a sefydliadau nas cynhelir eraill, i gynnal darpariaeth eang o gylchoedd meithrin yng Ngheredigion. | • Mudiad Meithrin<br>• Darparwyr eraill | • Nifer o gylchoedd meithrin yn y sir<br>• Nifer y mynychwyr |
| | | Codi ymwybyddiaeth gofalwyr plant annibynnol ynghylch gwerth y Gymraeg, gan eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth ieithyddol briodol. | • Uned Gofal Plant CSC<br>• Cered | • Adnoddau arweiniol a chefnogol ar gael i staff.<br>• Hyfforddiant manteision dwyieithrwydd yn cael ei ddarparu.<br>• Nifer a % y darparwyr Cymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael a datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol. | Ehangu darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion trwy weithredu **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion**, gan gynnwys:<br><br>• hyrwyddo mabwysiad Siarter Iaith Ceredigion – Ceri Siarad,(Cynradd ac Uwchradd)<br>• cynnal canolfannau trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid | • Gwasanaeth Addysg Ceredigion | • % ysgolion cynradd sydd wedi ennill cydnabyddiaeth trwy weithredu'r Siarter Iaith<br>• % sy'n derbyn addysg cynradd cyfrwng Cymraeg<br>• % o ddisgyblion 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg |
| | | Cynyddu'r nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog. | • Gwasanaeth Addysg Ceredigion<br>• Coleg Ceredigion<br>• Hyfforddiant Ceredigion | • Y nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog<br>• Darparu hyfforddiant ar addysgu'n ddwyieithog i athrawon? |
| | | Codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y Gymraeg. | • Gwasanaeth Addysg Ceredigion<br>• Coleg Ceredigion<br>• Hyfforddiant Ceredigion<br>• Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion<br>• Cered<br>• C.Ff.I. Ceredigion<br>• Urdd Gobaith Cymru<br>• Theatr Felin-fach | • Gweithgareddau addas yn cael eu darparu gan ystod o bartneriaid.<br>• Nifer o sesiynau **Cymraeg ar gyfer y Gwaith** sy'n cael eu darparu gan Cered ar gyfer Bl 10 |
| | | Annog ysgolion i gymryd mantais o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. | • Y Gwasanaeth Ieuenctid | • Nifer y cyfleodd addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) cyfrwng Cymraeg a ddarperir.<br>• Nifer a % o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | achrediadau Agored trwy gyfrwng y Cymraeg. |
| 1.3 | Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned | CSC yn ogystal â chyrff eraill i ddarparu ystod o gyfleoedd mewnol i staff gaffael, gwella eu medrau Cymraeg, drwy fanteisio ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a chodi ymwybyddiaeth o ddulliau amgenach o ddysgu iaith gan hyrwyddo technoleg newydd ee Say Something in Welsh | • CSC<br>• Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>• Tîm Addysg Gymunedol: Dysgu Cymraeg<br>• Creu Swyddog Hyfforddiant Cymraeg Gwaith CSC | • Nifer o staff y Cyngor ar gyrsiau iaith amrywiol.<br>• Nifer o fentoriaid ar y cynllun Ffrind Iaith |
| | | Hyrwyddo gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn rhannu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd i staff y sector cyhoeddus gymryd mantais o'r cyfleoedd a gynigir dan y cynllun Cymraeg Gwaith. | • Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>• Prifysgol Aberystwyth<br>• Cyrff cyhoeddus eraill | • Nifer o staff o gyrff cyhoeddus yng Ngheredigion yn mynychu cyrsiau dysgu neu wella sgiliau Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg Gwaith. |
| | | Cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i hyrwyddo ei ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys:<br>• Cyrsiau cymunedol prif ffrwd yn y gymuned,<br>• Rhaglen Integredig Cymraeg i'r Teulu. | • Prifysgol Aberystwyth<br>• Tim Addysg Gymunedol Dysgu Cymraeg | • Nifer o ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned<br>• Nifer sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned lefel Uwch neu Hyfedredd<br>• Nifer sydd wedi cofrestru ar gyfer Cymraeg i'r Teulu, a'r % sydd wedi cwblhau'r rhaglen. |

## 2. Cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg

**Nod strategol:** cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau

| | Amcanion | Camau Gweithredu | Partneriaid | Dangosydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 2.1 | Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol. | Gweithredu rhaglen waith benodol drwy gyfrwng Cered, gan gynnwys:<br>• cynnal grwpiau Gweithredu'n Lleol,<br>• cynnal cyfleoedd allgyrsiol i blant a phobl ifanc,<br>• hyrwyddo'r Gymraeg ymysg busnesau'r sir, e.e. Siarter Iaith Ceredigion, a<br>• darparu gwasanaeth gwybodaeth, adnoddau a chyfeirio. | • Cered | Nifer y gweithgareddau a hwylusir i deuluoedd, plant a phobl ifanc.<br>Nifer y gweithgareddau a hwylusir drwy gyfrwng pwerdai lleol.<br>- Nifer y busnesau sy'n rhan o gynllun Siarter Iaith Ceredigion |
| | | Cefnogi gweithgareddau plant ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol gan CSC ac mewn da i Urdd Gobaith Cymru a C.Ff.I. Ceredigion, ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau yn lleol. | • Cyngor Sir Ceredigion<br>• Urdd Gobaith Cymru<br>• C.Ff.I. Ceredigion | • Nifer aelodau'r mudiadau<br>• Nifer o achrediadau |
| | | Hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol cyfrwng Cymraeg trwy:gyfrwng Theatr Felin-fach, Amgueddfa Ceredigion a Gwasanaeth Llyfrgell Ceredigion | • Theatr Felin-fach<br>• Amgueddfa Ceredigion<br>• Gwasanaeth Llyfrgell Ceredigion | • Nifer o brosiectau celfyddydol a chyfranogiad sy'n cael eu hwyluso gan Th.F.F<br>• Nifer o fenthyciadau o lyfrau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg o'r llyfrgelloedd<br>• Yr Amgueddfa i gynnal 2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | weithdy ar gyfer teuluoedd yn Gymraeg a chynnal 1 perfformiad Cymraeg |
| | | Cefnogi sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol sy'n derbyn nawdd gan y Cyngor, i ddarparu rhaglen ddychmygus o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg drwy eu rhaglenni gwaith. | • Theatr Arad Goch<br>• Theatr Mwldan<br>• Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth<br>• Llyfrgelll Genedlaethol<br>• Castell Aberteifi | • Nifer a % y cyfleoedd Cymraeg mewn rhaglenni .sefydliadau allanol |
| | | CSC i barhau i roi cefnogaeth i Eisteddfodau Lleol a Sioeau Amaethyddol y Sir drwy'r Cynllun Grantiau Cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau traddodiadol ac ieithyddol o bwys o fewn y Sir. | • CSC<br>• Cymdeithas Eisteddfodau Lleol<br>• Sioeau Amaethyddol y Sir | • Cynllun Grantiau Cymunedol CSC i gynnwys defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r amodau derbyn grant |
| | | Cefnogi CAVO i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ymysg mudiadau gwirfoddol y sir. | • CAVO | • Nifer o weithdai sydd wedi'u comisiynu gan CAVO i hybu defnydd o'r Gymraeg ar gyfer mudiadau gwirfoddol y Sir<br>• Nifer o gyfleodd i wirfoddolwyr Cymraeg. |
| 2.2 | Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus. | CSC â chyrff eraill i weithredu'r Safonau Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg, , a rhannu arfer da gyda sefydliadau eraill sydd o fewn cylch gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer eu gweithredu | • Llywodraeth Cymru<br>• Comisiynydd y Gymraeg<br>• Cyngor Sir Ceredigion<br>• Cyrff cyhoeddus eraill sy'n gweithredu o dan y Safonau statudol | • Cyflwyniad Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol derbyniol ar ran CS Ceredigion<br>• Nifer sefydliadau sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg fewn y Sir |
| | | CSC ynghyd â chyrff eraill i gynyddu nifer y staff dwyieithog o fewn gweithleoedd, er mwyn cynyddu a gwella ansawdd | • Cyngor Sir Ceredigion<br>• Sefydliadau Dyfodol Dwyieithog | • % staff y Cyngor Sir sy'n medru siarad Cymraeg<br>• % staff sy'n medru siarad Cymraeg mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau dwyieithog led led y Sir. | | partneriaid sector cyhoeddus eraill |
| | | Hyrwyddo'r cynllun *Iaith Gwaith* Comisiynydd y Gymraeg<br>mewn perthynas â gwasanaethau Clic Ceredigion, a chynnal ymgyrch i hyrwyddo bod croeso defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cwsmer CSC.. | • Gwasanaeth CLIC<br>• Comisiynydd y Gymraeg | • Nifer a % o alwadau Cymraeg sy'n cael eu derbyn gan wasanaeth Clic Ceredigion<br>• Nifer sydd wedi cofrestru Cymraeg fel eu dewis iaith<br>• Nifer o ymweliadau ar gyfer gwefan y Cyngor<br>• Nifer o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol |
| | | Hyrwyddo a chefnogi gweithrediad y strategaeth Mwy na Geiriau o fewn gwasanaethau'r Cyngor a'i bartneriaid, a datblygu cydnerthedd cymunedau. | • Partneriaid yn y maes iechyd a gofal, e.e.<br>○ BIP Hywel Dda,<br>○ gwasanaethau cymdeithasol CSC,<br>○ Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>○ Gofal Cymdeithasol Cymru<br>○ CAVO | • Cyflawni gofynion Mwy na Geiriau a darparu adroddiad derbyniol i Lywodraeth Cymru |
| | | Datblygu dull o gyflwyno sesiynau cwrteisi iaith sylfaenol ar gyfer staff mewn cartrefi gofal | • Cyngor Gofal Cymru<br>• CSC<br>• Bwrdd Iechyd Hywel Dda | • Cyrsiau Cwrteisi Iaith Sylfaenol yn cael eu cyflwyno. |
| | | Hyrwyddo rhannu arfer da o fewn sefydliadau sector cyhoeddus y sir trwy gyfrwng fforwm Dyfodol Dwyieithog. | • Partneriaid Dyfodol Dwyieithog | • Rhannu arfer da drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| | | Cynnal a datblygu'r defnydd o Gymraeg yng ngwasanaethau Ceredigion Actif, gan gynnwys gwersi nofio a hyfforddiant | • Gwasanaethau Hamdden y Cyngor<br>• Cymdeithasau chwaraeon lleol | • Nifer o Ganolfanau Hamdden sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth drwy'r cynllun Siarter Iaith |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | chwaraeon, e.e. prosiect 5x60. | • Cered | Ceredigion<br>• Nifer o blant sydd wedi cyfranogi mewn gwersi nofio cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. |
| | | Hwyluso'r cyfleuster chwilio am wasanaethau drwy wefan Dewis Cymru ynghylch y ddarpariaeth Cymraeg sydd ar gael yng Ngheredigion. | • Gwasanaeth Dewis Cymru Ceredigion CSC | Nifer o sefydliadau sy'n arddangos bathodyn iaith gwaith ac medru darparu yn Gymraeg |
| | | Cydweithio â phartneriaid i gynnal statws y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio o fewn sefydliadau addysg uwch yn y sir. | • Prifysgol Aberystwyth<br>• Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | • Gweithgareddau i hybu 10 hawl myfyriwr #mae gen ti hawl.<br>• Nifer o fyfyrwyr sy'n astudio canran o'u cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 2.3 | Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleodd | CSC yn ogystal â chyrff eraill i gyflawni Safonau Gweithredu, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol; gan gynnwys :<br>• gwasanaethau AD cyfrwng Cymraeg,<br>• cyfleodd i godi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• datblygu a darparu adnoddau TGCh cyfrwng Cymraeg. | • Comisiynydd y Gymraeg<br>• Adrannau Adnoddau Dynol, TG a Gwasanaeth Cefnogi Polisi CS Ceredigion<br>• Cyrff eraill Fforwm Dyfodol Dwyieithog | • Cyflwyniad Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol derbyniol ar ran CS Ceredigion<br>• Gweithredu Polisi Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o Gymraeg yn Fewnol o fewn y Cyngor<br>  ○ Nifer o staff y Cyngor sy'n medru'r Gymraeg<br>  ○ Nifer o staff y Cyngor sydd wedi bod ar gyrsiau Cymraeg amrywiol<br>  ○ Nifer y cyrsiau hyfforddiant mewn swydd sydd wedi'u cynnal yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog |
| | | Cynyddu cydnabyddiaeth fod y | • CSC a chyrff eraill | • |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg y sgil gwerthfawr yn y gweithle | Fforwm Dyfodol Dwyieithog | |
| | | Rhannu arfer da ac annog sefydliadau partner eraill Dyfodol Dwyieithog i weithredu yn unol ag egwyddorion y Safonau Gweithredu. | • Sefydliadu Dyfodol Dwyieithog | • Nifer sefydliadau Dyfodol Dwyieithog sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg neu Bolisi Iaith. |
| | | Darparu cyngor ac arweiniad i gyflogwyr yn y sector breifat lleol, trwy gyfrwng prosiect Cymraeg mewn Busnes.- tynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg ee Pecyn ar-lein am ddim, Say Something in Welsh, Duolingo | • Cered<br>• Antur Teifi | • Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth dan gynllun Siarter Iaith Ceredigion |

# 3. Sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg

**Nod strategol:** sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

| | Amcanion | Camau Gweithredu | Partneriaid | Dangosydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 3.1 | Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn y gymdeithas sifil, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni | Cefnogi Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth a Llanbed; ac annog dathliadau tebyg mewn ardaloedd eraill. | • Cered<br>• Cynghorau Tref lleol | • Nifer y gorymdeithiau a gynhaliwyd |
| | | Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol 2020, drwy sefydlu Grŵp Prosiect i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu CSC i gefnogi a hwyluso trefniadau. | • Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 | • Cyflawni'r blaenoriaethau o fewn y cynllun gweithredu yn amserol<br>• Eisteddfod lwyddiannus |
| | | Y Cyngor a sefydliadau Dyfodol Dwyieithog i gefnogi a hyrwyddo ymgyrchoedd cyffredinol i'w staff, er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a cheisio newid ymddygiad ieithyddol e.e. ymgyrchoedd a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shw Mae, Ras yr Iaith, Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg | • Cyngor Sir Ceredigion<br>• Cered<br>• Partneriaid Dyfodol Dwyieithog | • Proffil amlwg i ddathliadau Cymreig yng nghyfryngau cymdeithasol y Cyngor a Cered |
| | | Amlygu gwerth y Gymraeg yn y diwydiant twristiaeth, e.e. hyrwyddo cynllun Naws am Le. | • Gwasanaeth Datblygu Twristiaeth CSC | • Proffil amlwg i'r Gymraeg yng ngweithgareddau'r Gwasanaeth Twristiaeth (Darganfod Ceredigion.) |
| | | Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg lleol drwy weithredu polisi enwi a rhifo strydoedd | • Gwasanaeth Rheoli Cyfeiriadau CSC | • Nifer o dai newydd sy'n cofrestru gyda enwau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ceredigion | • Cynghorau Tref a Chymuned | Cymraeg. |
| | | Annog rhanddeiliaid/trefnwyr digwyddiadau mawr i sicrhau gweledaid y Gymraeg mewn unrhyw ddigwyddiad mawr/ ymgyrch gyhoeddus | • Cyngor Sir Ceredigion a sefydliadau partner<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Comisiynydd y Gymraeg<br>• Cered | Proffil amlwg i'r Gymraeg mewn digwyddiadau mawr ar draws y Sir. |
| | | Cefnogi gweithrediad Cynllun Llesiant Ceredigion, gan sicrhau bod ei weithgareddau yn hyrwyddo gwerth a defnydd o'r Gymraeg | • Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion<br>• Sefydliadau Dyfodol Dwyieithog | Adolygu adroddiadau 6 Grŵp Prosiect Cynllun Llesiant Ceredigion er mwyn sicrhau buddiannau siaradwyr Cymraeg. |
| 3.2 | Sicrhau economi ffyniannus sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg y gweithlu | Rhoi gwerth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, drwy weithredu polisi recriwtio sy'n gofyn am asesiad ieithyddol wrth benodi swyddi gwag a newydd | • Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau CS Ceredigion<br>• Cyrff eraill Fforwm Dyfodol Dwyieithog | Nifer a chanran y swyddi a hysbysebwyd sy'n gofyn am sgiliau iaith ar lefel 1-5. |
| | | CSC a chyrff eraill i gynnal polisi caffael CS Ceredigion er mwyn rhoi gwerth ar y Gymraeg , gan sicrhau bod gofynion ynghylch y Gymraeg yn cael ei ystyried a'i gynnwys pan yn briodol mewn unrhyw gontract, tendr neu gytundeb cyfreithiol. | • Gwasanaeth Caffael a Gwasanaeth Cyfreithiol CSC<br>• Comisiynydd y Gymraeg<br>• Cyrff eraill Fforwm Dyfodol Dwyieithog | Cymal(au) perthnasol wedi eu cynnwys mewn dogfennau caffael, comisiynu a chytundebu.<br>Dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg yn cael eu dosbarthu i'r holl gontractwyr. '*Gwneud cais am gontractau a grantiau: Ystyried y Gymraeg'.* |
| | | Cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol 1, Hybu'r Economi, Strategaeth Gorfforaethol CSC 2017-22 i sicrhau gweledaid amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw | • CSC | Gweledaid amlwg i'r Gymraeg mewn cynlluniau hybu'r economi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynlluniau | | |
| | | Sicrhau bod gwerth y Gymraeg, ei defnydd a'u chynaliadwyedd yn ffactorau creiddiol o weithgareddau y Cynllun Cynnal y Cardi (LEADER). | • Cynnal y Cardi | • Prosesau monitro effeithiol mewn grym ynghylch y modd mae'r prosiectau a ariannir yn hyrwyddo'r Gymraeg neu lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl.<br>• Nifer o weithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan Cynnal y Cardi ac sy'n sicrhau gwerth i'r Gymraeg |
| | | Hyrwyddo gwerth economaidd y Gymraeg mewn gweithgareddau gyrfaol – o fewn ysgolion ,gwasanaethau a'r byd gwaith | • Gyrfa Cymru<br>• Cered<br>• Gwasanaeth Addysg Ceredigion<br>• Partneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog | • Nifer y digwyddiadau gyrfaol sy'n amlygu gwerth y Gymraeg.<br>[fideo byr ar You Tube pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i gyflogwr; adnodd i athrawon pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ar HWB; Hybu dwyieithrwydd mewn ffeiriau gyrfaol] |
| | | Sicrhau cyfleoedd i brentisiaid o fewn y Cyngor ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg wrth eu gwaith | • CSC | • Nifer o gyfleoedd prentisiaethau lle mae cyfran o'r gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog |
| | | Tynnu sylw at gylch gwaith Cymunedau Digidol Cymru | • Cymunedau Digidol Cymru | • Nifer o bencampwyr Cymunedau Digidol Cymru ofewn y Sir sydd â sgiliau Cymraeg |
| 3.3 | Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel prif gyfrwng cyfathrebu arferol | Hyrwyddo cynaliadwyedd y Gymraeg drwy gyfrwng gweithdrefnau cynllunio defnydd tir, e.e.:<br>• cynnal ac adolygu y *Canllawiau Cynllunio* | • Gwasanaeth Cynllunio CSC | • % o gyfanswm yr ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso i brynu tŷ fforddiadwy yn seiliedig ar gysylltiad lleol<br>• % o bobl priodol sydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *Atodol – Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg* yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol; a chryfhau'r cymal i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog ar gyfer datblygiadau ee siopau cadwyn<br>• cynnal astudiaethau effaith ieithyddol ynghlwm wrth bob cam o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd<br>• chynnal polisi o hyrwyddo tai fforddiadwy. | | mewn tai cymdeithasol trwy gael cysylltiad lleol<br>• Nifer ac ansawdd yr AEI a gynhelir.<br>• *Canllawiau Cynllunio Atodol – Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg* diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd |
| | | Parhau i ddefnyddio'r Cynllun Grant Cymunedol i gefnogi: mudiadau a digwyddiadau cymunedol sy'n gwneud defnydd o'r Gymraeg neu sy'n ymrwymo i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg | • Gwasanaeth Gyllid CS Ceredigion | • Nifer a chyfanswm y grantiau cymunedol perthnasol a ddosbarthwyd.<br>• Nifer y mudiadau sydd wedi datblygu eu defnydd o'r Gymraeg ymhellach fel rhan o'r amodau i dderbyn arian grant cymunedol. |
| | | Hyrwyddo gwerth y Gymraeg yn y sector fwyd | • Gwasanaeth Economi ac Adfywio CSC | • Hyrwyddo gwerth y Gymraeg yn y farchnad fwyd Aberystwyth |
| | | Gwasanaeth TG CSC yn ogystal â chyrff eraill i edrych am gyfleodd cynyddol i gynnwys y Gymraeg mewn technoleg, gan gynnwys systemau TG newydd, sefydliadau partner Fforwm Dyfodol Dwyieithog i godi ymwybyddiaeth, er mwyn | • CSC a chyrff eraill | • Defnydd o'r Gymraeg mewn TG yn cynyddu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynyddu defnydd o ryngwynebau cyfrwng Cymraeg ee Microsoft, Facebook, apiau | | |
| | | Darparu gwybodaeth i newydd-ddyfodiaid drwy gyfrwng gwefan www.symud.cymru | • Cered | • Ymweliadau â'r wefan |